



Swansea University
Prifysgol Abertawe

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Canllaw staff i gyfnod ymsefydlu a phontio myfyrwyr

Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe

swansea.ac.uk/cy/academi-cynwysoldeb/

Cyflywyniad

Dyma ddiffiniad o gyfnod pontio myfyrwyr:

“... proses o ddatblygu a newid hunaniaeth, a ddaw yn sgil rhyngweithiadau cymhleth rhwng myfyrwyr, staff a chyd-destunau sefydliadol, gyda phob un yn symud dros amser”. (Cyfieithiad o waith O’Donnell ac eraill, 2016)

Cyfnod ymsefydlu yw ymyrraeth o fewn amser penodol yn ystod cyfnod allweddol i gefnogi unigolyn i fynd i amgylchedd dysgu addysg uwch. Fel arfer, mae’n cynnwys cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau a gynhelir yn union cyn a/neu ar ddechrau’r flwyddyn academaidd. Y prif amcanion dysgu fel arfer yw croesawu myfyrwyr newydd, cynnig cyfle i gwrdd â myfyrwyr eraill yn ogystal â’r staff, a helpu myfyrwyr newydd i ymgartrefu a chwilio’u traed ym mywyd prifysgol.

Mae’r cyfnod pontio’n dechrau cyn i’r myfyrwyr gyrraedd ac, yn y bôn, mae’n parhau hyd oni iddynt adael. Fodd bynnag, mae’r heriau pontio’n fwy arwyddocaol yn y flwyddyn gyntaf. **Felly, mae’r canllaw hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod cyn cyrraedd, y cyfnod ymsefydlu cychwynnol, a’r ymyriadau pontio parhaus trwy gydol y flwyddyn gyntaf.**

Bydd y canllaw hwn yn rhoi syniadau i chi ar sut i gynllunio, cynnal a gwerthuso eich darpariaeth a’ch prosesau ar gyfer cyfnod ymsefydlu a phontio eich myfyrwyr.

Mae’n cynnwys awgrymiadau da i’ch helpu chi i ddarparu cyfnod pontio llyfn i mewn i addysg uwch a thrwyddi a chyfnod ymsefydlu cychwynnol llwyddiannus.

Cynnwys

Cyflywyniad.....	2
Pontio i mewn i'r flwyddyn gyntaf a thrwyddi	4
Awgrymiadau Da.....	6
Diben cyfnod ymsefydlu.....	8
Amseru yw popeth.....	9
Gwnewch e'n bersonol	10
Gweithgareddau ymsefydlu	12
Gweithgareddau pontio	13
Gwnewch e'n hygyrch.....	14
Gwnewch e'n gynhwysol	15
Gwerthuso – Sut wnaethom ni?.....	16
Gweithio gyda myfyrwyr	17
Cysylltu â ni	18
Cydnabyddiaethau	18

Pontio i mewn i'r flwyddyn gyntaf a thrwyddi

Ystyriwch y cyfnodau trosglwyddo ar gyfer eich myfyrwyr blwyddyn gyntaf

Beth fydd ar fyfyrwyr eu hangen i bontio'n llwyddiannus **i mewn** i addysg uwch a **thrw**y eu blwyddyn gyntaf?

- Beth yw'r **cyfnodau pontio allweddol** ar gyfer eich myfyrwyr blwyddyn gyntaf?
- **Pa wybodaeth** bydd ei hangen ar y myfyrwyr a **phryd** bydd ei hangen arnynt?
- **Pa sgiliau** bydd eu hangen ar fyfyrwyr ac **erbyn pryd** y bydd angen iddynt eu datblygu?
- Pa **ymyriadau** gellid eu cynnig i sicrhau bod myfyrwyr yn cael yr wybodaeth sydd eu hangen arnynt, eu bod yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol, a'u bod yn teimlo'n barod?

Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at rywfaint o'r cyfnod pontio allweddol yn ystod y flwyddyn gyntaf ac ymyriadau posibl i helpu.

Cyfnod trosglwyddo	Ymyriadau
Cyn cyrraedd	Beth sydd angen i fyfyrwyr ei wybod cyn iddynt gyrraedd? Gall y gweddill aros! Er enghraifft: <ul style="list-style-type: none">● Rhestrau darllen haf● Llyfrau gwaith sydd eu hangen● Gwybodaeth am y digwyddiad ymsefydlu● Enwau Twitter a thudalennau Facebook
Sefydlu cychwynnol	Gwybodaeth gychwynnol i groesawu myfyrwyr a'u helpu i ymgartrefu ym mywyd y brifysgol, gan gynnwys: ✓ Lle i fynd

Cyfnod trosglwyddo	Ymyriadau
	<p>✓ I bwy i ofyn am help yn y coleg</p> <p>✓ Gwybodaeth hanfodol I gychwyn arni</p>
<p>3-4 wythnos i mewn i'r tymor</p>	<p>Efallai bod rhai myfyrwyr yn cael problemau ymgartrefu ym mywyd y brifysgol, efallai bod y dull dysgu ac addysgu newydd yn heriol i rai, ac eraill â hiraeth am gartref. Hwn yw'r amser delfrydol i gyflwyno gwasanaethau'r coleg a chymorth canolog, fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Ganolfan Llwyddiant Academaidd • Gwasanaethau Llyfrgell • Llesiant@BywydCampws • Gwasanaeth Lles
<p>Gwaith labordy / maes</p> <p>Aseiniad cyntaf</p> <p>Aseiad cyntaf</p> <p>Lleoliad cyntaf</p> <p>Pontio I mewn I'r ail flwyddyn</p>	<p>Ystyriwch:</p> <p>✓ Yr wybodaeth y bydd ei hangen ar fyfyrwr i baratoi ar gyfer y cyfnodau allweddol hyn a phontio i mewn iddynt</p> <p>✓ Y sgiliau sydd eu hangen – er enghraifft, rheoli amser, dysgu annibynnol, hunan-feirniadu, cyfeirio, paratoi at asesiadau/arholiadau, defnyddio adborth</p> <p>✓ Ymyriadau priodol i helpu myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ac i deimlo'n barod, e.e. gweithdai, sgiliau astudio sydd wedi'u hymwreiddio, cyfeirio at wasanaethau canolog (gweler tudalen 9 am rai gweithgareddau awgrymedig).</p>



Awgrymiadau Da

- Mae pontio i addysg bellach a thrwyddi yn **broses** ddatblygu a newid unigol, a dim ond y cam cyntaf yn y broses hon yw'r cyfnod ymsefydlu
- **Gweithiwch gyda'r myfyrwyr** trwy gydol yr amser. Gallant helpu i gynllunio, cyflawni a gwerthuso gweithgareddau a nodi cyfnodau pontio allweddol
- **Gosodwch amcanion dysgu** ar gyfer eich darpariaeth ymsefydlu a phontio. Beth hoffech chi a'r myfyrwyr ei gael o'r gweithgareddau a gynigir?
- Meddyliwch am **yr amseru**. Bydd cael yr amseru'n gywir yn sicrhau bod myfyrwyr yn deall cyd-destun yr ymyrraeth ac yn gwneud y defnydd gorau ohoni
- Ewch ati i greu a chynnal **ymdeimlad o gymuned** ac o berthyn trwy gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr gwrdd â chymysgu ag aelodau allweddol o'r staff
- Gwnewch yn siŵr fod eich ymyriadau'n **hygyrch i'r holl** fyfyrwyr, hyd yn oed os na allant fynychu. Defnyddiwch gymysgedd o ddulliau cyfathrebu, nid e-bost yn unig
- Ystyriwch **amrywiaeth y garfan** a sicrhewch fod gweithgareddau'n amrywiol ac yn gynhwysol trwy ddarparu amrediad o weithgareddau cymdeithasol ac academaidd ar wahanol adegau
- **Gwerthuswch** er mwyn canfod beth sy'n mynd yn dda a pha feysydd sydd angen mwy o feddwl

Cofiwch:

- ✓ Myfyrwyr sy'n cyrraedd yn hwyr, fel myfyrwyr rhyngwladol
- ✓ Myfyrwyr cydanrhydedd
- ✓ Myfyrwyr sy'n dychwelyd ar ôl blwyddyn dramor
- ✓ Myfyrwyr sy'n cyrraedd drwy'r broses glirio

Beth am sefydlu gweithgor coleg sy'n cynnwys staff a myfyrwyr er mwyn:

- Ystyried arfer da mewnol ac allanol
- Gwerthuso'r cyfnod ymsefydlu ar gyfer y flwyddyn hon a'r cyfnod pontio trwy'r flwyddyn gyntaf
- Dechrau cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf

Diben cyfnod ymsefydlu

Yn aml iawn, daw myfyrwyr sy'n dechrau yn y brifysgol i mewn i amgylchedd gwahanol iawn, a gall y cyfnod pontio fod yn anodd. Gall gweithgareddau ymsefydlu helpu myfyrwyr i ymgartrefu, a dylent wneud y canlynol:

- Gosod a rheoli disgwyliadau
- Caniatáu i fyfyrwyr gwrdd â phobl newydd a chwilio'u traed
- Creu ymdeimlad o berthyn
- Cyflwyno aelodau allweddol o'r staff a gwasanaethau

Wrth gynllunio eich cyfnod ymsefydlu, mae'n ddefnyddiol gosod amcanion clir:

- Beth ydych chi eisiau i'r myfyrwyr ei gael o'u cyfnod ymsefydlu?
- Beth mae'r myfyrwyr eisiau ei gael o'u cyfnod ymsefydlu?
- Beth ydych chi eisiau ei gyflawni?
- Beth yw diben pob gweithgaredd neu ymyrraeth?

Siaradwch â'r myfyrwyr ... efallai y bydd eu blaenoriaethau nhw ar gyfer cyfnod ymsefydlu'n wahanol i'r hyn a dybiwch!

Amseru yw popeth

Er mwyn cefnogi **llwyddiant myfyrwyr**, dylid ystyried y cyfnod pontio fel proses o ddatblygu a newid, sydd ond megis dechrau gyda'r cyfnod ymsefydlu. Dylid rhoi gwybodaeth ar **bwyntiau allweddol penodol** trwy gydol taith y myfyriwr.

“[Fy mhrofiad gwaethaf i oedd] yr holl wybodaeth a gefais! Roedd gormod ohoni'n rhy fuan, d'oedd gen i ddim amser i gymryd popeth i mewn”

Peidiwch â llethu'r myfyrwyr â gormod o wybodaeth

- Cadwch sgysiau'n glir ac yn gryno
- Rhowch wybodaeth allweddol ar yr adegau cywir a chyfeiriwch at y gweddill

Gweler tudalen 14, “Gwnewch e'n hygyrch”, i gael syniadau ar sut i gyfleu eich negeseuon i fyfyrwyr

Ydych chi wedi ystyried y canlynol...

...Pryd bydd angen yr wybodaeth

...Gweithgareddau cyn y cyfnod ymsefydlu, ar-lein ac all-lein, e.e. grwpiau cyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau dros yr haf neu e-ddysgu paratoadol

... Rhannu'r wybodaeth a digwyddiadau fesul tipyn trwy gydol y flwyddyn; cael cymorth gwasanaethau cymorth arbenigol ar yr amser cywir!

Gwnewch e'n bersonol

Mae creu a chynnal ymdeimlad o gymuned ac o berthyn, boed hynny ar lefel rhaglen, pwnc, coleg neu brifysgol, yn bwysig o ran helpu myfyrwyr i ymgartrefu ym mywyd y brifysgol ac aros yma. Trefnwch rai "gweithgareddau dod i'ch adnabod" cyn gynted â phosibl fel y gall myfyrwyr newydd gymysgu a dechrau gwneud ffrindiau. Mae'n bwysig i bob myfyriwr feithrin cysylltiadau ag aelodau o'r staff.

Effallai yr hoffech wneud y canlynol gyda'r holl fyfyrwyr:

Cymysgu â myfyrwyr eraill


- Darparu [mentora cyfoedion](#) / cynllun cyfeillio neu ddefnyddio grwpiau teuluol
- Cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ryngweithio â chynrychiolwyr myfyrwyr
- Trefnu gwaith a gweithgareddau mewn grwpiau bach er mwyn ategu darlithiau hir a/neu fawr
- Creu cymuned ar-lein gan ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol (#...Cymuned neu #Tîm...)
- Cynnal teithiau oddi ar y campws
- Hybu cymdeithasau
- Darparu crysau-t/hwdîs

Cwrdd â staff

- Cyflwyno aelodau allweddol o'r staff a'u rolau'n gynnar
- Gosod lluniau a manylion cyswllt staff y tu allan i swyddfeydd / lleoedd addysgu ac ar hysbysfyrddau i helpu'r myfyrwyr i roi wyneb i'r enw a chwilio'u traed
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyflwyno staff
- Rhoi cardiau busnes staff i fyfyrwyr sydd â'u manylion cyswllt a'u horiau swyddfa arnynt
- Darparu nodau tudalen gyda gwybodaeth gyswllt allweddol
- Trefnu cinio mentor academaidd gyda'r myfyrwyr

Effallai yr hoffech wneud y canlynol gyda'r holl fyfyrwyr:

- Cynnal sesiynau cwrdd a chyfarch / boreau coffi i fyfyrwyr newydd cyn dechrau Semester 1
- Cynnwys staff academaidd a staff gwasanaethau proffesiynol
- Anfon negeseuon e-bost personol i fyfyrwyr gan ddefnyddio eu henwau Send students personalised emails using their name.




Gweithgareddau ymsefydlu

Darparwch amrediad o weithgareddau yn ystod yr wythnos gyntaf a thu hwnt, rhai academaidd a rhai cymdeithasol. Ystyriwch enw'r gweithgaredd sy'n cael ei gynnig – a yw'n apelio at fyfyrwyr? Dylai gweithgareddau ymsefydlu groesawu myfyrwyr newydd i'r brifysgol, eu helpu i wneud ffrindiau, eu hysbysu am y math o ddysgu bydd yn y rhaglen radd, a'u helpu i ymgartrefu ym mywyd y brifysgol. Dyma rai syniadau i'ch rhoi ar ben ffordd ...

- **Gwybodaeth cyn mynediad** – darparwch restr ddarllen dros yr haf neu dechreuwch drafodaeth ar bynciau academaidd trwy rwydwaith cymdeithasol.
- **Boreau coffi** cyn cofrestru i fyfyrwyr aeddfed, myfyrwyr sy'n teithio, a'r rhai hynny o gefndiroedd anhraddodiadol – er mwyn eu helpu i deimlo'n llai unig.
- **Digwyddiadau cymdeithasol** fel ciniawau, diwrnodau i ffwrdd neu bingo. Mae bwyd bob amser yn denu pobl! Cynhwyswch staff yn y digwyddiadau er mwyn helpu i feithrin cysylltiadau.
- **Sesiynau torri'r îâ** – ceisiwch gael myfyrwyr i gymysgu ag eraill a dechrau adeiladu'r ymdeimlad hwnnw o berthyn.
- **Teithiau campws a helfeydd sborion fesul grwpiau** – gallant ddod o hyd i fannau addysgu ac adnoddau, nodi aelodau allweddol o'r staff, a chanfod mwy am yr ardal. Beth am ofyn am gymorth mentoriaid cyfoedion neu lysgenhadon myfyrwyr?
- Mae'r Gwasanaeth Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistig yn cynnig **digwyddiad ymgyfarwyddo** i fyfyrwyr â chyflyrau ar y sbectrwm awtistig.
- **Trafodaethau am wahaniaethau** – cynhaliwch drafodaethau gyda grwpiau o fyfyrwyr ynghylch gwahaniaethau rhwng dysgu mewn maes addysg ôl-16 ac yn y brifysgol.

Ar gyfer staff Prifysgol Abertawe yn unig:

Llyddiant Academaidd: Sgiliau Dysgu, Sgiliau Bywyd – Cyrsiau ar-lein sydd wedi'u dylunio i'ch helpu chi i symud i addysg uwch; Cwrs 1 a Chwrs 2 mewn rhaglenni ymsefydlu, a Chwrs 3 cyn cyflawni'r aseiniad cyntaf.



Gweithgareddau pontio

Darparwch amrediad o weithgareddau a digwyddiadau i gefnogi cyfnod pontio'r myfyriwr i mewn i addysg uwch a thrwyddi. Ystyriwch y sgiliau y bydd ar fyfyrwyr eu hangen, yn enwedig yn ystod eu blwyddyn gyntaf. Dylai darpariaethau pontio helpu myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol a'u paratoi ar gyfer y cyfnodau pontio allweddol sydd o'u blaenau (gweler y llinell amser ar dudalen 3 am ragor o wybodaeth). Dyma rai syniadau i'ch rhoi ar ben ffordd ...

- Gofynnwch i fyfyrwyr **bleidleisio ar yr wybodaeth** y maen nhw ei hangen gan ddefnyddio system fel **Kahoot**. Beth sy'n bwysig iddyn nhw? Beth sydd angen iddynt wybod?
- **Rhowch gynnig ar rai gweithgareddau dysgu** – cyflwynwch gyfleoedd i roi cynnig ar amrediad o sgiliau dysgu, e.e. defnyddio adborth yn effeithiol.
- **Cwisiau** rhyngweithiol gyda chlicwyr - anogwch waith tîm mewn amgylchedd hamddenol a hwyliog.
- **Gweithgareddau adeiladu tîm sy'n berthnasol i'r cwrs** – ceisiwch gael myfyrwyr i weithio gyda'i gilydd a meddwl am gynnwys y cwrs.
- **Cyflwyniadau grŵp** ar faterion academaidd sy'n berthnasol i'r maes pwnc.
- **“Trafod ar ras”** – trafodwch syniadau academaidd neu faterion ymarferol fel sgiliau astudio sylfaenol, cyflogadwyedd neu gymdeithasau myfyrwyr.
- **Digwyddiadau “croeso'n ôl”** ar ddechrau Semester 2 ac ar gyfer blynnyddoedd 2 a 3 yn agos at ddiwedd yr wythnos ymsefydlu.
- **Gweithdai sgiliau a sesiynau galw heibio** i roi sylw i faterion pontio academaidd ar adegau allweddol o'r flwyddyn.
- **Areithiau gan gyn-fyfyrwyr neu recriwtiaid graddedigion** – cewch fyfyrwyr i ganolbwyntio ar feddwl am eu nodau.

Gwnewch e'n hygyrch

Po hawsed y gellir cael yr wybodaeth, mwya'n byd y bydd myfyrwyr yn debygol o'i defnyddio. Trwy roi gwybodaeth ar-lein, gall myfyrwyr fynd yn ôl ati yn ôl yr angen ac mae'n ddefnyddiol i fyfyrwyr sydd wedi cyrraedd yn hwyr ac wedi colli'r gweithgareddau ymsefydlu. Bydd defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyflwyno'n sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn derbyn yr wybodaeth.

Efallai yr hoffech wneud y canlynol

- ✓ Datblygu **fideos** i fyfyrwyr eu gwyllo cyn cyrraedd neu cyn dychwelyd.
- ✓ Rhyddhau **tameidiau o wybodaeth** yn y cyfnod sy'n arwain at yr Wythnos Groesawu (gweler [Cyfri'r dyddiau i Seicoleg](#)).
- ✓ Datblygu **man ar-lein dynamig** ar gyfer deunyddiau ymsefydlu, cwisiau, cwestiynau cyffredin a manylion cyswllt allweddol.
- ✓ **Recordio gweithgareddau** ar gyfer myfyrwyr a allai fod wedi'u colli
- ✓ Ystyried opsiynau eraill heblaw am **e-bost, megis cyfryngau cymdeithasol, negeseuon testun neu sgriniau digidol** i gyflwyno negeseuon pwysig.
- ✓ Llunio **dogfen PowerPoint sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol** i'w chwarae ar gylchred ar ddechrau a diwedd darlithiau.
- ✓ Datblygu **cwrs Blackboard** fel yr un gan Ysgol Gyfraith Hillary Rodham Clinton.
- ✓ **Cynnwys gwybodaeth am sgiliau astudio** mewn modiwlau.
- ✓ Gwahodd **siaradwyr gwadd** ar ddechrau neu ddiwedd darlithiau ar gyfnodau allweddol o'r flwyddyn i roi trosolwg cryno o'r gwasanaethau arbenigol a'r help a chymorth sydd ar gael.

Ar gyfer staff Prifysgol Abertawe yn unig:

Cyfeirio myfyrwyr at gyrсияu ar-lein Sgiliau Dysgu, Sgiliau Bywyd y rhaglen [Llwyddiant Academaidd](#), ac ystyried cynnwys y cyrsiau yn y modiwlau

Gwnewch e'n gynhwysol

Dylai cyfnodau ymsefydlu a phontio fod yn gynhwysol i **bob** myfyriwr a dylent ystyried maint, amrywiaeth ac anghenion penodol y garfan. Dylid cynnig amrywiaeth o ddarpariaethau, gan ystyried y canlynol:

- Myfyrwyr ag anabledau
- Cefndiroedd diwylliannol
- Myfyrwyr rhyngwladol
- Myfyrwyr â chymwysterau anhraddodiadol
- Myfyrwyr aeddfed
- Myfyrwyr sy'n teithio
- Myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu
- Myfyrwyr sy'n cael eu derbyn ar flwyddyn uwch
- Myfyrwyr â chred

✓ Meddyliwch am **amseru** eich digwyddiadau. Rhowch ddigonedd o rybudd er mwyn i fyfyrwyr ag anghenion cymorth ac ymrwymïadau eraill gynllunio ymlaen llaw.

✓ A yw'r digwyddiad a'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi **yn hygyrch**? (Ar gyfer staff Prifysgol Abertawe yn unig: [Canllaw ar wneud adnoddau yn hygyrch](#))

✓ Sut byddwch chi'n sicrhau bod yr wybodaeth **yn parhau** i fod ar gael i bob myfyriwr?

✓ A yw'r wybodaeth sy'n cael ei darparu'n **briodol i anghenion** y garfan?

✓ Are you providing a **range of activities**, including alcohol free social events? A ydych chi'n darparu **amrediad o weithgareddau**, gan gynnwys digwyddiadau cymdeithasol di-alcohol?

✓ A ydych chi'n rhoi cyfleoedd i'r myfyrwyr **integreiddio a chymysgu** ag eraill o wahanol ddiwylliannau a chefnidiroedd?

Gwerthuso – Sut wnaethom ni?

Mae gwerthuso a chael adborth gan fyfyrwyr yn hanfodol i lwyddiant gweithgareddau ymsefydlu a phontio yn y dyfodol. Bydd yn helpu i nodi'r pethau a aeth yn dda yn ogystal â'r meysydd sydd angen eu gwella. I gasglu adborth, gallech ddefnyddio'r canlynol...



- Grwpiau ffocws myfyrwyr
- Arolygon ar-lein i fyfyrwyr
- Grwpiau ffocws neu arolygon i staff
- Pleidleisiau Facebook
- **Dull archwilio** ymsefydlu
- Blychau awgrymiadau
- Sesiynau meddwl a bwyta – ychydig o atebion byr yn gyfnewid am fwyd!
- Cyfarfodydd pwyllgor cynrychiolwyr myfyrwyr

Ar gyfer staff Prifysgol Abertawe yn unig:

Gwerthuso ymsefydlu myfyrwyr newydd gan ddefnyddio **arolwg myfyrwyr** ac **offeryn myfyrio staff**.

Gweithio gyda myfyrwyr

Bydd **gweithio gyda myfyrwyr i gynllunio, cyflawni a gwerthuso darpariaethau ymsefydlu a phontio** yn rhoi mewnlwg gwerthfawr i ba wybodaeth sydd ei hangen a phryd. Bydd cydweithio'n hybu teimpladau o gydberchnogaeth a bydd yn helpu i gynyddu cyfranogiad.

- Cynhaliwch gyfarfodydd cynllunio gyda'r myfyrwyr presennol. Pa wybodaeth oedd arnyn nhw ei hangen a sut byddent wedi hoffi ei chael? Beth fyddai wedi eu helpu wrth symud i addysg uwch? Beth yw'r rhwystrau i gymryd rhan mewn darpariaethau ymsefydlu a phontio?
- Gweithiwch gyda'r myfyrwyr newydd – beth maen nhw eisiau ei wybod? Gallech wneud hyn trwy bleidleisiau Facebook cyn mynediad er mwyn helpu i drefnu digwyddiadau ar gyfer yr wythnos gyntaf.
- Gweithiwch gyda'r myfyrwyr newydd – beth maen nhw eisiau ei wybod? Gallech wneud hyn trwy bleidleisiau Facebook cyn mynediad er mwyn helpu i drefnu digwyddiadau ar gyfer yr wythnos gyntaf.
- Darparwch becynnau croeso o fyfyrwyr cyfredol sy'n cynnwys geiriau o anogaeth a chyngor am fod yn fyfyrwr newydd.
- Darparwch becynnau croeso o fyfyrwyr cyfredol sy'n cynnwys geiriau o anogaeth a chyngor am fod yn fyfyrwr newydd.

Ar gyfer staff Prifysgol Abertawe yn unig:

Beth am ddefnyddio **lleoliad SPIN** i helpu i gasglu adborth, gwerthuso'r cyfnod ymsefydlu y llynedd ac i gynllunio'r amserlen o ddigwyddiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf?

Darllenwch sut y'r Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe yn gweithio gyda'u myfyrwyr **i wella eu cyfnod sefydlu**.

Darganfyddwch beth sy'n **bwysig i fyfyrwyr** ar gyfer sefydlu.

Cysylltu â ni

Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS)

swansea.ac.uk/cy/academi-cynwysoldeb/

cynwysoldeb@abertawe.ac.uk

Gellir cael rhagor o wybodaeth am gyfnodau ymsefydlu a phontio yn **ffolder Cydweithio SAILS**, gan gynnwys:

- Gwybodaeth o weithdai
- Nodiadau a phapurau o'r grŵp gorchwyl a gorffen
- Adroddiad SAILS ar gyfnodau pontio myfyrwyr

Cydnabyddiaethau

Cynhyrchwyd y canllaw hwn gan Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS) gyda chyfraniadau gan Simon Bott (cadeirydd y grŵp gorchwyl a gorffen ymsefydlu a phontio), arweinwyr SAILS y coleg, aelodau o'r grŵp gorchwyl a gorffen, ac aelodau o'r staff a fynychodd y gweithdai SAILS ar ymsefydlu a phontio. Diolch i chi i gyd am rannu eich arferion da, eich syniadau a'ch awgrymiadau.



Mae'r gwaith hwn wedi'i drwyddedu o dan [Drwydded Ryngwladol Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/)